**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/05476/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Yn ychwanegol at fy llythyr atoch ym mis Awst, rwyf bellach wedi cael cyngor pellach ar roi trefniadau o'r fath ar waith i roi cymorth ariannol ychwanegol i deuluoedd er mwyn talu'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â threfnu a thalu am angladd i staff y GIG sy'n marw o Covid-19.

Rwyf wir yn gwerthfawrogi ein gweithlu ymroddedig ac yn diolch iddynt am eu gwaith caled bob amser ond yn enwedig drwy gydol y cyfnod hwn. Mae colli un o'ch anwyliaid neu gydweithiwr annwyl yn brofiad llawn trallod ac ni ellir tanbrisio goblygiadau emosiynol ac ymarferol profiad o'r fath.

Felly, rwyf wedi ystyried yn llawn ymarferoldeb a goblygiadau rhoi cynllun o'r fath ar waith. Mae'r ystyriaethau hyn wedi cynnwys:

- Ystyriodd fy swyddogion gynllun a fyddai'n cyd-fynd â'r cynllun claddu plant a gyflwynwyd yn 2017. Er hynny yn unol â'r cynllun claddu plant ni fyddai hwn mewn gwirionedd, yn talu cost lawn angladd. Mae costau angladdau'n amrywio'n sylweddol oherwydd amgylchiadau unigol a dymuniadau'r teulu ar gyfer yr angladd. Byddai'n anodd sefydlu unrhyw gynllun heb ystyried materion tegwch, felly gallai fod angen cap ac mae'n bosibl na welir bod hwn yn fesur priodol i Lywodraeth Cymru ei gymryd.

- Byddai nodi'r rhai sy'n weithwyr y GIG yn anodd i'r awdurdodau lleol wrth weinyddu cynllun o'r fath. Yn wahanol i'r cynllun claddu plant, lle mae eu dyddiad geni a'r dyddiad y buont farw ar gael yn hwylus, ni fyddai proffesiwn y person yn cael ei ddangos ar eu tystysgrif marwolaeth. Felly bydd anawsterau wrth weinyddu'r cynllun ac fe fyddai'n creu baich ychwanegol ar gyflogwyr y GIG a'r awdurdodau lleol mewn cyfnod anodd;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Byddai angen rhoi ystyriaeth i gymhwyster gweithwyr allweddol rheng flaen eraill. Byddai'n annheg darparu hyn i un grŵp o weithwyr rheng flaen yn unig; a

- Byddai'r amserlen ar gyfer sefydlu'r cynllun yn cymryd llawer o wythnosau/misoedd a byddai angen ystyried sut y gellid ad-dalu'r costau claddu sydd eisoes wedi'u talu gan deuluoedd.  Byddai ad-dalu ôl-weithredol hefyd yn creu gofynion gweinyddol ychwanegol.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus cydbwysedd yr adnoddau y mae eu hangen i roi unrhyw gynllun o'r fath ar waith yn erbyn yr adnoddau y byddai angen eu tynnu i ffwrdd o flaenoriaethau eraill yn ystod y pandemig i gydnabod ein bod eisoes wedi darparu'r cynllun sicrwydd bywyd gwerth  £60,000 i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i'r teuluoedd hynny sydd wedi colli un o'u hanwyliaid. Rwyf wedi dod i'r casgliad, am y rhesymau a roddwyd na allwn ddarparu cynllun o'r fath. Rwyf yn sylweddoli y bydd y penderfyniad yn eich siomi ond rwyf yn gobeithio y byddwch yn cydnabod ein bod wedi ymchwilio i'r cynllun a'r goblygiadau cysylltiedig cyn gwneud y penderfyniad hwn.

Gobeithio y bydd yr ateb hwn o gymorth ichi..

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services